

CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Lletygarwch ac Arlwyo (Dyfarniad Technegol)

MANYLEB

I'w haddysgu o 2022

I'w dyfarnu o 2024

Crynodeb o newidiadau

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen

DRAFT

Cynnwys

1. Trosolwg o'r Cymhwyster	5
1.1 I bwy mae'r cymhwyster hwn?	6
1.2 Trosolwg o'r sector ar gyfer CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol mewn Lletygarwch ac Arlwy (Dyfarniadau Technegol)	6
1.3 Amcanion y cymhwyster	7
1.4 Gofynion dysgu blaenorol	7
1.5 Beth fydd dysgwyr yn ei astudio?	7
2. Cipolwg ar y fanyleb	8
2.1 Cynnwys y pwnc	8
2.2 Trosolwg o'r Asesu	8
2.3 Amcanion Asesu	9
3. Unedau	10
3.1 Fformat yr unedau	10
3.2 Ymhelaethiad	10
Uned 1	11
Uned 2	21
2.1 Pwysigrwydd maeth	21
2.2 Cynllunio bwydlenni	21
2.3 Sgiliau a thechnegau paratoi, coginio a chyflwyno seigiau	21
2.4 Gwerthuso sgiliau coginio	21
Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:	23
Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:	25
Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:	27
Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:	30
4 Asesiad	31
4.1 Asesiad Allanol (Uned 1)	31
4.2 Asesiad mewnol (Uned 2)	31
4.3 Asesiad synoptig	31
4.4 Pecynnau ymgeiswyr ac aseswyr	32
4.5 Rheoli'r asesiadau	32
5 Oriau dysgu dan arweiniad a chyfanswm amser cymhwyso	33
5.1 Oriau dysgu dan arweiniad	33
5.2 Cyfanswm yr Amser Cymhwyso	33
6 Cofrestriadau	34
6.1 Cymeradwyo Canolfannau	34
6.2 Dulliau Cofrestru	34
Cofrestru ar gyfer unedau	34
Cofrestru ar gyfer y cymhwyster	35
Codau cofrestru	35

7	Dyfarnu, graddio ac adrodd yn ôl	36
8	Trefniadau ailsefyll	37
8.1	Ailsefyll unedau cyn ardystio	37
8.2	Ailsefyll ar ôl ardystio	37
8.3	Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau	37
9.	Camymddwyn.....	38
9.1	Atal camymddwyn	38

DRAFT

1. Trosolwg o'r Cymhwyster

Teitl y Cymhwyster	CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Lletygarwch ac Arlwy (Dyfarniad Technegol)
Math o Gymhwyster yr AA	Dyfarniad Technegol
RhC Ofqual	603/7022/1
Cod Cymhwyster CBAC	
Cod Disgownt yr AA	
Grŵp oedran cymeradwy	14+
Addysgu am y tro cyntaf	Medi 2022
Ardystio am y tro cyntaf	Ionawr 2024
Dogfennau Allweddol	Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Canllaw Gweinyddu
Canllawiau Addysgu	Canllaw Asesu Canllaw Cyflwyno Canllawiau Addysgu Uned 1 Canllawiau Addysgu Uned 2

1.1 I bwy mae'r cymhwyster hwn?

Bwriad cymwysterau CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr astudio pynciau galwedigaethol ar yr un pryd â chymwysterau TGAU a chymwysterau cyffredinol a galwedigaethol eraill. Bydd dysgwyr yn gwneud hyn yn rhan o raglen astudio eang.

Cawsant eu llunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed gan ganolbwyntio ar ddysgu mewn ffordd gymhwysol, h.y. caffael a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrpasol wedi'u gosod yng nghyd-destun y sector neu'r pwnc. Mae ganddynt felly lawer o nodweddion gwaith real.

Mae'r cymwysterau Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) ar gael mewn 9 maes pwnc. Ar y rhestr isod, mae unrhyw bynciau â * yn bodloni gofynion Ofqual a'r AA ar gyfer cymwysterau'r tabl perfformiad CA4:

- Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- Peirianeg
- Lletygarwch ac Arlwy
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lletygarwch ac Arlwy
- TGCh
- Celfyddydau Perfformio
- Busnes Adwerthu
- Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi.

1.2 Trosolwg o'r sector ar gyfer CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol mewn Lletygarwch ac Arlwy (Dyfarniadau Technegol)

Mae lletygarwch ac arlwy yn sector deiniol, bywiog ac arloesol sy'n darparu swyddi hanfodol, twf a buddsoddi yng nghanol ein cymunedau lleol – sy'n bwysig yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae'r sector yn cyfrannu'n helaeth at economi'r DU, gan gyflogi 2.9 miliwn o bobl a chynhyrchu £130bn mewn gweithgarwch economaidd, tra'n talu £38bn mewn trethiant i ariannu gwasanaethau lleol a cenedlaethol pwysig. Lletygarwch yw'r 3ydd cyflogwr sector preifat mwyaf yn y DU; mae'n ddwbl maint gwasanaethau ariannol ac yn fwy na modur, fferyllol ac awyrodol gyda'i gilydd.¹

Mae busnesau sy'n rhan o'r sector lletygarwch yn cynnwys gwestai, bwytai, siopau coffi, tafarndai a bariu, parciau hamdden, stadia, clybiau nos, arlwywyr contract, gweithredwyr gwasanaethau bwyd, adloniant ac atyniadau i ymwelwyr. Gall cyflogaeth amrywio o staff gweini, croesawyr a chynorthwyrwyr arlwy i chefs, rheolwyr gwesty a bar a thechnolegwyr bwyd sy'n gweithio i gadwynau o archfarchnadoedd. Mae rhai o'r rolau hyn yn gofyn am addysg a hyfforddiant bellach naill ai drwy brentisiaethau neu addysg bellach ac addysg uwch.

¹ <https://www.ukhospitality.org.uk/>

1.3 Amcanion y cymhwyster

Lluniwyd y Dyfarniad Galwedigaethol mewn Lletygarwch ac Arlwyo i gefnogi dysgwyr mewn ysgolion sydd am ddysgu am y sector galwedigaethol hwn a'i botensial o ran gyrfa neu astudiaeth bellach. Mae ar ei fwyaf addas yn sylfaen i astudio pellach. Byddai unrhyw astudio pellach o'r fath yn rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin amrywiaeth o sgiliau arbenigol a chyffredinol a fyddai'n eu helpu wedyn i symud i fyd cyflogaeth.

1.4 Gofynion dysgu blaenorol

Er nad oes gofynion cofrestru ffurfiol, byddai'r sgiliau dysgu a'r doniau canlynol yn ddefnyddiol i ddysgwyr: hyfedredd sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd, rhywfaint o allu i weithio â chyfrifiaduron a chymhelliant i weithio'n annibynnol.

1.5 Beth fydd dysgwyr yn ei astudio?

Cymhwyster unedol yw hwn sy'n cynnwys 2 o unedau gorfodol:

Uned	Teitl	Asesiad	ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)
1	Y diwydiant lletygarwch ac arlwyo	Allanol	48
2	Lletygarwch ac arlwyo ar waith	Mewnol	72

2. Cipolwg ar y fanyleb

2.1 Cynnwys y pwnc

Mae Uned 1 yn galluogi dysgwyr i ennill a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r diwydiant lletygarwch ac arlwy gan gynnwys darpariaeth, iechyd a diogelwch, a diogelwch bwyd (tudalen 10).

Mae Uned 2 yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd maeth a sut i gynllunio bwydlenni maethlon. Byddant yn dysgu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i baratoi, coginio a chyflwyno seigiau. Byddant hefyd yn dysgu sut i adolygu eu gwaith yn effeithiol (tudalen 21).

2.2 Trosolwg o'r Asesu

Crynodeb o'r Asesu	
Uned 1: Y diwydiant lletygarwch ac arlwy Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 20 munud 40% o'r cymhwyster	80 marc
Cwestiynau yn gofyn am atebion byr ac estynedig wedi'u seilio ar sefyllfaoedd cymhwysol. Gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio deunydd symbylu i ymateb i gwestiynau.	
Uned 2: Lletygarwch ac arlwy ar waith Asesiad dan reolaeth: tua 12 awr 60% o'r cymhwyster	120 marc
Bydd CBAC yn darparu briff yr aseiniad a fydd yn cynnwys senario a nifer o dasgau, a fydd ar gael ar Wefan Ddiogel CBAC.	

2.3 Amcanion Asesu

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr wneud y canlynol:

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o'r fanyleb.

AA2

Defnyddio sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.

AA3

Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob cydran ac am y cymhwyster yn gyffredinol:

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	17%	14%	9%	40%
Uned 2	8%	36%	16%	60%
Pwysoliad cyffredinol	25%	50%	25%	100%

3. Unedau

3.1 Fformat yr unedau

Teitl yr uned:	Crynodeb fer o gynnwys yr uned.
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA):	Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu arolygwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwyliwr neu arolygwr. Dyrannwyd oriau dysgu dan arweiniad i bob uned i gefnogi'r gwaith cyflwyno. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn gyflawn, ac argymhelliad felly yw nifer yr oriau i bob uned.
Cyd-destun galwedigaethol	Sail resymegol alwedigaethol ar gyfer cynnwys yr uned.
Trosolwg o'r uned:	Crynodeb o gynnwys yr uned. Y rhan hon sy'n rhoi'r uned yn ei chyd-destun ac yn tynnu sylw at ddiben yr hyn y mae'r uned yn ei ddysgu.
Testunau:	Yn cynnwys rhestr o'r testunau y mae'r uned yn ymdrin â nhw.
Asesiad:	Crynodeb o ddull asesu'r uned.

3.2 Ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- mae 'Dylai dysgwyr wybod' wedi'i ddefnyddio ar gyfer adalw ffeithiau fel deddfwriaeth a diffiniadau.
- mae 'Dylai dysgwyr wybod a deall' wedi'i ddefnyddio ar gyfer mwyafrif cynnwys yr uned lle mae angen i'r wybodaeth arwain at ymdeimlad o ddealltwriaeth.
- mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' wedi'i ddefnyddio pan fo cyfanswm y cynnwys yn eithaf helaeth, ac nid oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd arno yn fanwl.
- mae 'Dylai dysgwyr allu' wedi'i ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth at senario neu sefyllfa ymarferol.

Cyflwynir cynnwys y pwnc mewn 2 uned, ac mae pob un wedi'i hisrannu yn feysydd testun clir a phenodol. Ym mhob maes testun mae'r wybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau yn cael eu nodi mewn trosolwg cychwynnol ac yna mewn dwy golofn. Mae'r golofn ar y chwith yn manylu ar y cynnwys sydd i'w astudio. Mae'r golofn ar y dde yn darparu ymhelaethiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y dylai dysgwyr eu datblygu yn y maes hwn. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy golofn yn rhoi cynnwys llawn y fanyleb. Ni awgrymir unrhyw hierarchaeth gan drefn cyflwyno'r cynnwys, ac nid yw'r drefn ei hun yn awgrymu trefn addysgu benodol.

Mae'r ymhelaethiad yn y golofn ar y dde yn cwmpasu'r holl gynnwys sy'n cael ei asesu ar gyfer yr adran berthnasol, oni bai ei fod yn nodi 'e.e.', 'gan gynnwys' neu 'megis'. Yn yr achosion hyn, bydd yr ymhelaethiad yn rhestru cynnwys perthnasol y dylid ei drafod ymhellach mewn ffordd briodol, gan ystyried anghenion a diddordebau dysgwyr. Mae defnyddio'r geiriau 'gan gynnwys' yn dangos gorfodaeth (h.y. gellid gosod cwestiwn yn benodol ar yr agwedd honno). Cyfarwyddyd yn unig yw'r defnydd o'r geiriau 'e.e.' neu 'megis', a gellid dewis rhywbeth yn lle'r hyn a nodir.

Uned 1

Teitl yr uned	Y diwydiant lletygarwch ac arlwyo
Cod cofrestru'r uned	
ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)	48
Cyd-destun galwedigaethol	Ar hyn o bryd, ystyrir bod y DU yn cynnig y gwasanaeth lletygarwch mwyaf cyfeillgar yn Ewrop. I'r mwyafrif sy'n gweithio yn y diwydiant bywiog hwn, mae lletygarwch yn fwy na dim ond swydd; mae'n rhywbeth sy'n mynd a bryd y gweithiwr, yn gyfle i fynegi creadigrwydd – yn fath o 'gelf.' I'r cyhoedd, nid 'bwyta' yn unig yw bwyta allan, mae'n brofiad cyfan, yn amser i ymgolli a phrofi synhwyrâu newydd.² Yr her fwyaf sy'n wynebu'r diwydiant lletygarwch ac arlwyo heddiw yw prinder staff medrus ar bob lefel; mae'r diwydiant yn cynnig gyrfaedd gwych i bawb³.
Trosolwg o'r uned	Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o'r diwydiant lletygarwch ac arlwyo gan gynnwys darpariaeth, iechyd a diogelwch, a diogelwch bwyd.
Testunau	1.1 Darpariaeth lletygarwch ac arlwyo 1.2 Sut mae darparwyr lletygarwch ac arlwyo yn gweithredu 1.3 Iechyd a diogelwch mewn lletygarwch ac arlwyo 1.4 Bwyd diogelwch mewn lletygarwch ac arlwyo
Asesiad	Asesir yr uned hon yn allanol, drwy arholiad ysgrifenedig sy'n cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster. Hyd: 1 awr 20 munud Nifer y marciau: 80 Fformat: cwestiynau ag atebion byr ac estynedig yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. Gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio deunydd symbylu i ymateb i gwestiynau.

² 'Dathlu celfyddyd Lletygarwch - <https://www.hightspeedtraining.co.uk/hub/the-art-of-hospitality-report/>

³ Sefydliad Lletygarwch

1.1 Darpariaeth lletygarwch ac arlwyio

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

1.1.1 Darparwyr lletygarwch ac arlwyio

1.1.2 Gweithio yn y diwydiant lletygarwch ac arlwyio

1.1.3 Amodau gwaith yn y diwydiant lletygarwch ac arlwyio

1.1.4 Ffactorau sy'n cyfrannu ar lwyddiant darpariaeth lletygarwch ac arlwyio

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.1.1 Darparwyr lletygarwch ac arlwyio	Dylai dysgwyr wybod y ddau fath gwahanol o ddarpariaeth lletygarwch ac arlwyio a'u deall: masnachol ac anfasnachol: Masnachol (preswyl): • Lletyau Gwely a Brecwast, tai llety ac Airbnb • meysydd gwersylla a pharciau carafannau • parciau gwyliau, porthdai, podiau a chabanau • gwestai, moteli a hosteli. Masnachol (dibreswyl) • cwmnïau hedfan, llongau mordeithio, trenau pellter hir • caffis, ystafelloedd te a siopau coffi • allfeydd bwyd cyflym • bwyd a ddarperir gan stadiymau, neuaddau cyngerdd ac atyniadau i dwristiaid • faniau bwyd symudol a faniau bwyd stryd • bwytai gwib • tai tafarnau, bariau • bwytai a bistros • bwydydd tecawê • peiriannau gwerthu. Anfasnachol (preswyl): • lluoedd arfog • ysgolion preswyl, colegau, llety prifysgolion • ysbytai, hosbisau a chartrefi gofal • carcharau. Anfasnachol (dibreswyl): • ffreuturau mewn sefydliadau gwaith (cymorthdaledig) • darparwyr bwyd wedi'u rhedeg gan elusen • pryd ar glud • ysgolion, colegau a phrifysgolion. Dylai dysgwyr wybod a deall y mathau canlynol o wasanaeth mewn darpariaeth fasnachol ac anfasnachol: Gwasanaeth bwyd: • gweini wrth y bwrdd: plât, arddull teulu, gwasanaeth arian, Gueridon, gwledd • cownter: cafeteria, bwffe, bwyd cyflym

	• personol: hambwrdd neu droli, peiriant gwerthu, danfon i'r cartref, tecawê. Gwasanaeth preswyl: • ystafelloedd: sengl, dwbl, brenin, teulu, swît (ystafell en-suite â bath/cawod, rhannu cyfleusterau) • lluniaeth: brecwast, cinio canol dydd, pryd o fwyd gyda'r hwyr, gwasanaeth yn yr ystafell 24 awr/bwyty ar gael • cyfleusterau cynadleddau a digwyddiadau • cyfleusterau hamdden (sba, campfa, pwll nofio). Dylai dysgwyr wybod a deall pwysigrwydd y safonau a'r sgoriau canlynol: • safonau gwestai a thai llety (sgoriau sêr) • safonau bwytai, Gwobr Rosette AA, Good Food Guide, sêr Michelin.
--	---

1.1.2

Gweithio yn y diwydiant lletygarwch ac arlwyio

Dylai dysgwyr wybod a deall y mathau canlynol o rolau a chyfrifoldebau cyflogaeth o fewn y diwydiant:

- rheolwr blaen tŷ, prif weinydd, staff gweini, concierge, croesawyr, maître d'hôte, valets
- cadw ty: morwyn ystafell, glanhawr, gweithiwr cynnal a chadw, gofalwr
- brigâd gegin: chef gweithredol, sous-chef, chef de partie, commis chef, chef cynnyrch crwst, cynorthwydd cegin, prentis, porthor cegin/plongeur
- rheoli: bwyd a diod, cadw tŷ, marchnata.

Dylai dysgwyr wybod a deall y priodoleddau personol, cymwysterau a phrofiad penodol canlynol y byddai cyflogwr yn chwilio amdanynt i gyflawni'r rolau:

Priodoleddau personol:

- trefnus
- gweithgar
- prydlon
- hylan
- dymunol
- digynnwrf
- cyfeillgar
- cyfathrebwr da
- chwaraewr tîm
- sgiliau da wrth ymdrin â phobl
- parodrwydd i ddysgu a datblygu
- hyblyg.

Cymwysterau a phrofiad:

- prentisiaethau
- profiad yn y rôl/sector – swydd ran-amser, cyflogaeth dros yr haf
- cymwysterau ysgol, coleg a/neu brifysgol sy'n berthnasol i'r swydd.

1.1.3 Amodau gwaith yn y diwydiant lletygarwch ac arlwyo	Dylai dysgwyr wybod a deall y mathau canlynol o gontractau cyflogaeth ac oriau gwaith: • achlysurol • llawn amser parhaol (dros dro) • rhan amser (parhaol) • tymhorol • contract dim oriau. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r tâl a'r buddion canlynol yn y diwydiant: • cyflog • cyflog (yn ôl yr awr) • hawl i wyliau • pensiwn • tâl salwch • cyfraddau cyflog • cildyrnau, taladïau bonws a gwobrau. Mae'r diwydiant lletygarwch ac arlwyo fel arfer yn darparu mwy o swyddi rhan-amser na swyddi llawn amser dan gontract. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o anhenion newidiol y diwydiant fel: • cyflenwad a galw: staffio yn ystod amserau brig, digwyddiadau mawr, adegau tymhorol a lleoliad y ddarpariaeth.
---	---

1.1.4 Ffactorau sy'n cyfrannu at lwyddiant darpariaeth lletygarwch ac arlwyio	Dylai dysgwyr wybod a deall y costau sylfaenol canlynol sy'n codi o fewn y diwydiant lletygarwch ac arlwyio: • llafur • defnydd • gorbenion. Dylai dysgwyr wybod a deall y cyfrifiad sylfaenol o elw crynswth ac elw net o fewn y diwydiant lletygarwch ac arlwyio. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o sut y gall yr economi effeithio ar fusnes yn y ffyrdd canlynol: • cryfder yr economi • treth ar werth (TAW) • gwerth y bunt a'r gyfradd gyfnewid. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd anghenion amgylcheddol a'r effaith amgylcheddol o fewn y diwydiant lletygarwch ac arlwyio drwy: • natur dymhorol • cynaliadwyedd: lleihau, aildddefnyddio, ailgylchu. Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae technoleg newydd yn effeithio ar y diwydiant lletygarwch ac arlwyio mewn ffordd gadarnhaol drwy: • systemau dim arian parod • technoleg ddigidol arloesol (apiau, bwcio ar-lein, mynediad â cherdyn allwedd, bwydlen ddigidol) • meddalwedd. Dylai dysgwyr wybod a deall yr effeithiau cadarnhaol a negyddol y gall y mathau canlynol o gyfryngau eu cael ar y diwydiant lletygarwch ac arlwyio: • cyfryngau print (papur newydd, cylchgronau) • darlledu (teledu, radio) • rhyngwrdd (cyfryngau cymdeithasol, gwefannau) • cystadleuol (sefydliadau eraill).
--	---

1.2 Sut mae darpariaethau lletygarwch ac arlwyio yn gweithredu

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

1.2.1 Gweithrediad blaen a chefn tŷ

1.2.2 Gofynion cwsmeriaid mewn lletygarwch ac arlwyio

1.2.3 Darpariaeth lletygarwch ac arlwyio i fodloni gofynion penodol

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.2.1 Gweithrediad blaen a chefn tŷ	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o ofynion gweithredol y canlynol: • llif gwaith blaen tŷ – derbynfa, ardal eistedd eistedd, gwasanaeth cownter, bar • llif gwaith y gegin arlwyio – cyflenwadau, ardal staff, ardal olchi, ardal storio, ardal baratoi a choginio, ardal weini, ardal olchi/glanhau. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r cyfarpar a'r defnyddiau canlynol sydd eu hangen, sy'n cael eu defnyddio a'u rheoli o fewn darpariaeth/ceginau arlwyio: • cyfarpar mawr: ffwrn gonfensiynol fawr, oerydd gwydr, cymysgydd bwyd llawr sefydlog, ffriwr dwfn, yrnau dŵr poeth, oergell/rhewgell agored (walk in), bain-marie sefydlog, stemwyr, peiriant golchi llestri cegin fasnachol a pheiriant golchi gwydrau, platiau poeth • defnyddiau glanhau, cit cymorth cyntaf a deunyddiau diogelwch • cyfarpar bach • offer. Dylai dysgwyr wybod a deall y gofynion gweinyddu a dogfennaeth ganlynol a ddefnyddir mewn cegin arlwyio: • systemau rheoli stoc, archebu, nodiadau danfon, anfonebau, dogfennaeth diogelwch bwyd a dogfennaeth iechyd a diogelwch. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r gofynion cod gwisg nodweddiadol ar gyfer blaen a chefn tŷ sefydliadau lletygarwch a arlwyio.
1.2.2 Gofynion cwsmeriaid mewn lletygarwch ac arlwyio	Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae darpariaeth lletygarwch ac arlwyio yn bodloni gofynion: • anghenion cwsmeriaid (arlwyio, cyfarpar, llety) • hawliau'r cwsmer a chynhwysiant (anabledd) • cydraddoldeb.
1.2.3 Darpariaeth lletygarwch ac arlwyio i fodloni gofynion penodol	Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae darpariaeth lletygarwch ac arlwyio yn addasu i fodloni'r hinsawdd cwsmeriaid sy'n newid drwy'r amser: • gofynion/anghenion cwsmeriaid: ffordd o fyw, anghenion maethol, anghenion dietegol, amser sydd ar gael • disgwyliadau cwsmeriaid: gwasanaeth, gwerth am arian, tueddiadau, bod yn ymwybodol o gystadleuaeth gan ddarparwyr eraill, diddordeb/dylanwad y cyfryngau, pryderon amgylcheddol, natur dymhorol • demograffeg cwsmeriaid: oed, lleoliad, hygyrchedd, arian sydd ar gael, mynediad i sefydliadau/darpariaeth.

1.3 Iechyd a diogelwch mewn lletygarwch ac arlwyio

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

1.3.1 Iechyd a diogelwch mewn darpariaeth lletygarwch ac arlwyio

1.3.2 Diogelwch Bwyd

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.3.1 Iechyd a diogelwch	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau am ddiogelwch personol yng ngweithle cyflogwyr a gweithwyr mewn perthynas â'r cyfreithiau canlynol: • Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002 • Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 • Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992 • Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith (PPER) 1992 • Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013 • Risg i iechyd a diogelwch gan gynnwys lefel y risg (isel, canolig, uchel) mewn perthynas â chyflogwyr, gweithwyr, cyflenwyr a chwsmeriaid. Dylai dysgwyr wybod pa mor bwysig yw cwblhau'r dogfennau canlynol a gallu eu cwblhau: • ffurflenni damweiniau • asesiadau risg. Dylai dysgwyr wybod bod cyflogwyr yn gyfrifol am anghenion hyfforddi iechyd a diogelwch holl staff.
1.3.2 Diogelwch bwyd	Dylai dysgwyr wybod a deall egwyddorion Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) a gallu: • nodi unrhyw bwyntiau rheoli critigol a sicrhau bod risgiau'n cael eu dileu neu eu lleihau i lefelau diogel • penderfynu pa gamau i'w cymryd os aiff rhywbeth o'i le • cwblhau dogfen HACCP • cofnodion cyflawn i ddangos bod gweithdrefnau'n gweithio.

1.4 Diogelwch bwyd mewn lletygarwch ac arlwy

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

- 1.4.1 Achosion afiechyd sy'n gysylltiedig â bwyd
- 1.4.2 Symptomau ac arwyddion o afiechyd a achosir gan fwyd
- 1.4.3 Mesurau rheoli ataliol afiechyd a achosir gan fwyd
- 1.4.4 Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO)

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.4.1 Achosion afiechyd sy'n gysylltiedig â bwyd	Dylai dysgwyr wybod y gallai afiechyd gael ei achosi gan y canlynol: • alergeddau • bacteria • cemegion • anoddefedd. Dylai dysgwyr wybod yr achosion canlynol o wenwyn bwyd: • bacillus cereus • campylobacter • clostridium perfringens • e-coli • listeria • salmonella • staphylococcus aureus. Dylai dysgwyr wybod a deall yr achosion canlynol sy'n gysylltiedig ag afiechyd sy'n gysylltiedig â bwyd: Alergeddau bwyd: • grawnfwydydd (glwten) • cramenogion • cynnyrch llaeth • wyau • pysgod • ffrwythau a llysiau • bysedd y blaidd (<i>lupin</i>) • molysgiaid • cnau • cnau mwnci • hadau sesame • soia • gwenith. Anoddefedd Bwyd: • glwten • lactos • aspartame • MSG. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: • Rheoliadau Labelu Bwyd (2006) • Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol) 1995 • Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

1.4.2 Symptomau ac arwyddion o afiechyd a achosir gan fwyd	Dylai dysgwyr wybod a deall y symptomau canlynol o afiechyd a achosir gan fwyd: Gweladwy: • sioc anaffylactig • ymchwyddo • anawsterau anadlu • oerfel • dolur rhydd • wyneb wedi chwyddo • croen gwelw neu groen sy'n chwysu • brech • chwydu • colli pwysau. Anweladwy: • rhwymedd • teimlo'n gyfloglyd • cymalau poenus • poen yn y stumog • gwendid • gwynt.
1.4.3 Mesurau rheoli ataliol afiechyd a achosir gan fwyd	Dylai dysgwyr wybod a deall y mesurau rheoli i atal afiechyd a achosir gan fwyd: • traws-halogiad • tymheredd cywir o ran danfoniad, storio, paratoi a gweini • halogiad ffisegol.
1.4.4 Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO)	Dylai dysgwyr wybod a deall rôl Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO) a bod cyfrifoldebau'n cynnwys: • casglu tystiolaeth gan gynnwys samplau ar gyfer profi, ffotograffau, cyfweiliadau • gorfodi cyfreithiau iechyd yr amgylchedd dilyn cwynion • dilyn brigiadau o achosion o wenwyn bwyd • Arolygu busnes ar gyfer safonau diogelwch bwyd • rhoi tystiolaeth mewn erlyniadau • parhau i gadw tystiolaeth • Cyflwyno adroddiadau.

Uned 2

Teitl yr uned	Lletygarwch ac arlwyyo ar waith
Cod cofrestru'r uned	
ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)	72
Cyd-destun galwedigaethol	Mae dewisiadau gyrfa yn y diwydiant lletygarwch ac arlwyyo yn enfawr o gadwynau o fwytai poblogaidd i fwytai â sêr Michelin. Mae gyrfaedd mewn arlwyyo yn cynnwys darparu gwasanaethau bwyd sy'n gyfrifol am wasanaeth cwsmeriaid, paratoi bwyd, glendid a hylendid. Mae angen storio, trin, paratoi a choginio bwyd yn briodol er mwyn sicrhau na fydd ei fwytai yn effeithio ar iechyd pobl. Mae gan bawb sy'n gweithio yn y diwydiant bwyd gyfrifoldeb i leihau'r risgiau o achosi salwch drwy fwyd. Mae chefs a maethgwyr yn ymwneud â pharatoi bwydlenni ac adolygu sut mae dulliau paratoi a chyflwyno yn effeithio ar werthoedd maethol. Mae angen i fwyd ar fwydlen fodloni anghenion maethol y cwsmer a chael ei baratoi, ei goginio a'i weini mewn ffordd benodol er mwyn sicrhau apêl y cwsmer a bod safonau yn cael eu cynnal mewn unrhyw sefydliad; felly, mae'n rhaid i ddiogelwch bwyd a bodloni anghenion maethol fod yn ganolbwynt i'r cynllunio a'r gweithgareddau i gyd.
Trosolwg o'r uned	Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd maeth a sut i gynllunio bwydlenni maethlon. Byddant yn dysgu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i baratoi, coginio a chyflwyno seigiau. Byddant hefyd yn dysgu sut i adolygu eu gwaith yn effeithiol. Mae'r uned hon yn synoptig ac yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd yn Uned 1. Bydd angen i ddysgwyr gymhwyso gwybodaeth a ddysgwyd yn y meysydd pwnc canlynol er mwyn gallu cwblhau'r asesiad hwn: • gweithrediad blaen a chefn tî • darpariaeth lletygarwch ac arlwyyo i fodloni gofynion penodol • iechyd a diogelwch mewn darpariaeth lletygarwch ac arlwyyo • diogelwch bwyd • mesurau rheoli ataliol afiechyd a achosir gan fwyd.
Testunau	2.1 Pwysigrwydd maeth 2.2 Cynllunio bwydlenni 2.3 Sgiliau a thechnegau paratoi, coginio a chyflwyno seigiau 2.4 Gwerthuso sgiliau coginio
Asesiad	Asesir yr uned hon yn fewnol drwy asesiad dan reolaeth. Mae'r asesiad yn cyfrannu 60% at radd gyffredinol y cymhwyster.

Hyd: 12 awr

Nifer y marciau: 120

Fformat: Bydd CBAC yn darparu briff yr aseiniad a fydd yn cynnwys senario a nifer o dasgau. Bydd briff yr aseiniad yn cael ei osod yn flynyddol gan CBAC a'i anfon i ganolfannau mewn pecyn asesu drwy Wefan Ddiogel CBAC.

DRAFT

2.1 Pwysigrwydd maeth

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

2.1.1 Deall pwysigrwydd maeth

2.1.2 Sut mae dulliau coginio yn gallu effeithio ar werth maethol

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.1.1 Deall pwysigrwydd maeth	Dylai dysgwyr wybod a deall swyddogaeth y maetholion canlynol a chael ymwybyddiaeth o'r angen am ddeiet cytbwys/amrywiol: Macrofaetholion: • carbohydrad • braster • protein. Microfaetholion: Fitaminau: • Fitamin A, a fitamin D braster-hydawdd • dŵr-hydawdd: grŵp fitamin B a fitamin C. Mwynau: • calsiwm • haearn • sodiwm • potasiwm • magnesiwm yn ogystal â: • ffibr deietegol (Polysacarid Di-Startsh: NSP) • dŵr. Dylai ymgeiswyr allu cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faeth i'r canlynol:- Camau bywyd gwahanol: • oedolion; ifanc, canol oed, hŷn (oedrannus) • plant; babanod, plant bach, pobl ifanc yn eu harddegau. Anghenion dietegol arbennig ar gyfer unigolion sydd: • angen gofynion egni gwahanol yn seiliedig ar ffordd o fyw, galwedigaeth, oed neu lefel gweithgarwch • angen deietau arbennig • â chyflyrau meddygol; alergenau, anoddefedd lactos, anoddefedd glwten, diabetes (math 2), anhwylder cardiofasgwlaidd, diffyg haearn • â gofynion deiet, fel credoau crefyddol • yn bobl sy'n dilyn deiet pescatarian, llysieuwyr, feganiaid.

2.1.2

Sut mae dulliau coginio yn gallu effeithio ar werth maethol

Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae'r dulliau coginio canlynol yn effeithio ar werth maethol:

- berwi
- ffrio
- grilio
- potsio
- rhostio
- stemio
- pobi
- tro ffrio.

2.2 Cynllunio bwydlenni

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

2.2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar gynllunio bwydlenni

2.2.2 Sut i gynllunio cynhyrchu

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar gynllunio bwydlenni	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r ffactorau canlynol wrth gynllunio bwydlenni: • cost • rheoli cyfrannau • dietau cytbwys/cyngor maeth cyfredol • adeg o'r dydd • cleientiaid/cwsmeriaid. Dylai dysgwyr ddeall a gwybod y ffactorau canlynol wrth gynllunio bwydlenni: • cyfarpar sydd ar gael – y math o gyfarpar sydd ei angen i gynhyrchu bwydlen, cyfarpar arbenigol, cyfarpar llaw a chyfarpar trydanol. • sgiliau'r cogydd – paratoi, coginio a chyflwyno, sy'n gysylltiedig ag anghenion y seigiau/bwydlen/cwsmer. • amser sydd ar gael – a'r math o ddarpariaeth e.e. gwasanaeth, lleoliad, maint, safonau – cynhyrchu seigiau/bwydlen yn yr amser a ganiateir. Sut i baratoi, coginio a chyflwyno mwy nag un saig ar yr un pryd. • materion amgylcheddol – cadwraeth egni a dŵr – sut gall cynhyrchu seigiau fod yn gynaliadwy drwy ddefnyddio llai o egni a lleihau'r defnydd o ddŵr? Dylai dysgwyr wybod a deall y termau canlynol: • lleihau • aildddefnyddio • ailgylchu • cynaliadwyedd • amser o'r flwyddyn, – natur dymhorol nwyddau. • priodweddau organoleptig.
2.2.2 Sut i gynllunio cynhyrchu	Dylai dysgwyr allu cynllunio seigiau ar gyfer bwydlen a gwybod a deall y canlynol: • rhestr nwyddau gan gynnwys manylion am nifer/maint • cynlluniau wrth gefn • rhestr cyfarpar • iechyd, diogelwch a hylendid • pwyntiau ansawdd • dilyniannu/cydweddu • amseru • mise en place • coginio • oeri

	• cadw'n boeth • gweini • storio.
--	---

DRAFT

2.3 Sgiliau a thechnegau paratoi, coginio a chyflwyno seigiau

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

2.3.1 Sut i baratoi a gwneud seigiau

2.3.2 Technegau cyflwyno

2.3.3 Arferion diogelwch bwyd

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.3.1 Sut i baratoi a gwneud seigiau	Dylai dysgwyr allu adnabod mathau o sgiliau a lefelau sgîl wrth ddewis seigiau i'w cynhyrchu. Dylai dysgwyr wybod a deall bod rhai seigiau yn gofyn am ddefnyddio sgiliau mwy cymhleth na seigiau eraill. Dylai dysgwyr allu dangos amrywiaeth o'r technegau paratoi a choginio bwyd canlynol ar gyfer cynhyrchu prydau⁴: Mae'r technegau paratoi a choginio wedi'u categorio fel a ganlyn: Sylfaenol* Canolig** Cymhleth*** Mae cydrannau wedi'u cynhyrchu'n barod a ddefnyddir wrth baratoi a choginio seigiau i gyd yn cael eu hystyried yn rhai sylfaenol. Technegau paratoi: • blendio* • curo* • hufennu** • crimpio*** • dadhydradu** • plygu** • gratio* • hydradu* • troi'n sudd* • tylino** • laminadu (crwst)*** • marinadu* • stwnsio* • mesur** • toddi* • toddi gan ddefnyddio bain-marie*** • cymysgu** • peipio*** • codi*

⁴ Mae enghraifft o seigiau sy'n cynnwys amrywiaeth o dechnegau sylfaenol, canolig a chymhleth ar gael yng Nghantlawiau'r Uned.
© WJEC EDUQAS CBAC Ltd.

- piwreio**
- rhwbio i mewn**
- rholio**
- siapio***
- mân-dorri*
- gogru*
- tynnu croen**
- tyneru*
- tostio (cnau/hadau)**
- dadfowldio***
- pwyso**
- chwisgio (awyru)***
- gratio croen sitrws*

Technegau cylllell:

- torri*
- bâton**
- chiffonade**
- brunoise***
- deisio**
- julienne***
- briwio***
- sleisio**
- tynnu esgyrn***
- tynnu hadau**
- ffiledu***
- pilio*
- segmentu***
- hollti**
- trimio*

Technegau coginio:

- brasteru*
- pobi**
- pobi'n wag***
- blansio**
- berwi*
- brwysio**
- carameleiddio***
- oeri*
- oeri*
- ffrio dwfn***
- dadsgleinio**
- dadhydradu*
- emwlsio***
- rhewi*
- ffrio**
- gridyllu (gradellu)**
- grilio*
- piclo**

	• potsio*** • lleihau** • rhostio** • sautéio** • setio** • sgimio* • stemio** • tro ffrio** • tymheru*** • tostio* • baddon dŵr (sous-vide) **
2.3.2 Technegau cyflwyno	Dylai dysgwyr wybod a deall pwysigrwydd defnyddio'r technegau cyflwyno priodol canlynol yn ystod gynhyrchu seigiau: Technegau cyflwyno: • creadigrwydd • garnais ac addurno • rheoli cyfrannau • cyfwydydd.
2.3.3 Arferion diogelwch bwyd	Dylai dysgwyr wybod, deall a gallu dangos sut i weithio'n ddiogel, dilyn arferion a gweithdrefnau diogelwch personol a bwyd a hylendid cywir mewn perthynas â pharatoi a choginio bwyd a defnyddio cyfarpar a chyfleusterau.

2.4 Gwerthuso sgiliau coginio

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

2.4.1 Adolygu seigiau

2.4.2 Adolygu perfformiad eich hun

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.4.1 Adolygu seigiau	Dylai dysgwyr allu darparu adolygiad byr o'u cynllunio, eu paratoi a'u coginio; amlygu meysydd llwyddiant a datblygiad pellach posibl. Meysydd i'w hystyried: • creu seigiau • dewis seigiau • iechyd a diogelwch • hylendid • gwelliannau • organoleptig • cyflwyno • gwastraff.
2.4.2 Adolygu perfformiad eich hun	Dylai dysgwyr allu nodi cryfderau a gwendidau personol sy'n ymwneud â: • gwneud penderfyniadau • trefniadaeth • cynllunio – gan gynnwys manteision ac anfanteision yr opsiynau a ddewisir a sut maent yn bodloni anghenion penodol • rheoli amser.

4 Asesiad

4.1 Asesiad Allanol (Uned 1)

Arholiad allanol sydd ar gael ym mis Ionawr a Mai/Mehefin bob blwyddyn (asesiad cyntaf ym mis Ionawr 2024) yw dull asesu Uned 1.

Bydd pob arholiad allanol yn:

- cael ei osod a'i farcio gan CBAC
- cynnwys papur 1 awr, 20 munud o hyd
- asesu cynnwys o bob testun yn yr uned ym mhob cyfres
- cynnwys 80 marc
- yn cynnwys nifer cytbwys o gwestiynau atebion byr ac estynedig, yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi a chyd-destunau cymhwysol
- defnyddio'r berfau gorchymyn ar y rhestr yn y Canllaw Asesu (Pennod 4) yn unig
- cael ei raddio Lefel 1 Llwyddiant, Lefel 1 Teilyngdod, Lefel 1 Rhagoriaeth, Lefel 1 Rhagoriaeth*, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Rhagoriaeth*.

Asesir yr holl gynnwys ym mhob maes testun dros rychwant oes y fanyleb. Bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir wedyn fel y sail ar gyfer marcio'r papurau arholiad.

I asesïadau allanol, rhaid i ganolfannau ddilyn dogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*, y mae copi ohoni i'w gweld yn Saesneg ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

4.2 Asesiad mewnol (Uned 2)

Asesir Uned 2 drwy asesiad dan reolaeth, a gyflwynir wedyn i'w gymedroli'n allanol. Gellir cyflwyno Uned 2 ym mis Ionawr a Mai bob blwyddyn (cyflwyniad cyntaf ym mis Ionawr 2023). Rhaid i ganolfannau ddilyn y cyfarwyddiadau ar redeg asesiadau dan reolaeth sydd i'w gweld yn y Canllaw Gweinyddu ac ym mhob Canllaw Uned. I gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn, dylai canolfannau fod â pholisi asesiad dan reolaeth ar waith (y gall fod yn rhan o bolisi Asesiad Di-arholiad y ganolfan); bydd y polisi hwn yn cael ei wirio yn rhan o broses gymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

4.3 Asesiad synoptig

Uned synoptig yw Uned 2 sy'n gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r profiad a feithrinwyd ganddynt drwy Uned 1 (gweler tudalen 21 am fanylion).

4.4 Pecynnau ymgeiswyr ac aseswyr

Mae Pecynnau Asesu ar gyfer ymgeiswyr ac aseswyr i'w cael ar y wefan ddiogel i'w lawrlwytho gan ganolfannau. Ni ddylai'r Pecynnau Ymgeiswyr fod ar gael i'r ymgeiswyr tan ddechrau'r asesiad sef yn ystod mis Medi pob blwyddyn academiaidd. Mae Deunyddiau Asesu Enghreifftiol i'w cael ar wefan cbac.co.uk.

4.5 Rheoli'r asesiadau

Mae'n ofynnol i ganolfannau reoli a chynnal y drefn asesu mewnol yn unol â'r trefniadau a amlinellir yn y Canllaw Gweinyddu ym Mhennod 3 ac yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Pedwar maes sy'n cael eu rheoli: goruchwyliaeth, cyfarwyddyd, adnoddau a chydweithio. Mae'r canllaw uned cyfatebol yn cynnwys manylion penodol i bob uned.

5 Orlau dysgu dan arweiniad a chyfanswm amser cymhwyso

5.1 Orlau dysgu dan arweiniad

Mae orlau dysgu dan arweiniad (ODA) yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu oruchwylwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwylwr neu arolygwr.

Cyfanswm yr Orlau Dysgu dan Arweiniad sydd wedi'u neilltuo i'r cymhwyster hwn yw 120 o orlau.

Caiff orlau dysgu dan arweiniad eu dyrannu i bob uned i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno yn y ganolfan. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn gyflawn ac argymhelliad yn unig felly yw nifer yr orlau dysgu dan arweiniad i bob uned.

5.2 Cyfanswm yr Amser Cymhwyso

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn orlau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr orlau dysgu dan arweiniad ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

180 o orlau yw'r cyfanswm amser cymhwyso ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae hyn yn cynnwys:

- 120 o orlau o ddysgu dan arweiniad a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 60 o orlau o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

6 Cofrestriadau

6.1 Cymeradwyo Canolfannau

Er mwyn cynnig ein cymwysterau, mae'n rhaid i ganolfan gael ei chymeradwyo fel canolfan gan CBAC. Mae'r broses gymeradwyo yn cynnwys llenwi'r ffurflen(ni) cais perthnasol ac asesiad o allu'r ganolfan i fodloni gofynion CBAC a rhai perthnasol y CGC.

Os yw eich canolfan eisoes yn cynnig cymwysterau cyffredinol ac wedi derbyn rhif canolfan (NCN), darllenwch yr Amodau i ganolfannau cofrestredig CBAC a chysylltwch â ni i ofyn am ffurflen gais.

Os ydych chi'n sefydliad newydd, darllenwch y dogfennau canlynol cyn cysylltu â ni i drafod eich canolfan arfaethedig:

- Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy CGC
- Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau CGC
- Amodau i Ganolfannau Cofrestredig CBAC.

Os hoffai eich canolfan gyflwyno cofrestriadau a chithau heb gofrestru fel canolfan eto, yna cysylltwch â'r adran Cefnogi Canolfannau yn CBAC canolfannau@CBAC.co.uk i gael ffurflen gais. Rhaid dychwelyd y ffurflen hon wedi'i llenwi i CBAC yn ddim llai na phum mis cyn y terfyn amser cofrestru perthnasol.

Rhaid i ganolfannau cymeradwy CBAC gadw at yr **Amodau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau CBAC a rheoliadau priodol y CGC**. Rhaid i bob canolfan gymeradwy CBAC sydd â Rhif Canolfan Cenedlaethol (NCN) gwblhau'r **datganiad blynyddol a anfonir gan NCN**. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at atal cofrestriad CBAC.

6.2 Dulliau Cofrestru

Bydd CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Lletygarwch ac Arlwyio ar gael i'w ardystio o fis Ionawr 2024.

Cofrestru ar gyfer unedau

Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer unedau unigol drwy gyflwyno'r codau uned perthnasol sydd i'w gweld ar bob uned sy'n rhan o'r fanyleb.

Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

Codau cofrestru

		Cod Cofrestru
Uned 1	Asesiad allanol	
Uned 2	Asesiad Mewnol	
Cod Cyfnewid		

7 Dyfarnu, graddio ac adrodd yn ôl

Defnyddir graddfa o 8 pwynt i ddyfarnu Dyfarniadau Galwedigaethol: Lefel 2 Rhagoriaeth*, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 1 Rhagoriaeth*, Lefel 1 Rhagoriaeth, Lefel 1 Teilyngdod, Lefel 1 Llwyddiant. Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Cofnodir unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) gan gyfateb i raddau fel a ganlyn:

Uned	Uchafswm	Lefel 2				Lefel 1			
		D*	D	M	P	D*	D	M	P
Uned 1	120	108	96	87	72	60	48	36	24
Uned 2	180	162	144	126	108	90	72	54	36
Cymhwyster	300	270	240	210	180	150	120	90	60

8 Trefniadau ailsefyll

8.1 Ailsefyll unedau cyn ardystio

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn **fewnol** cyn ardystio ond ni allant wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Defnyddir y sgôr marc unffurf gorau o'r cynigion i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol** cyn ardystio; ond, mae gofyniad terfynol o 40% yn y cymhwyster hwn y mae'n rhaid ei fodloni gan yr uned a asesir yn allanol. Felly, dim ond y sgôr marciau unffurf o'r ymgais yn y gyfres y mae'r ymgeisydd yn cyfnewid y cymhwyster ynddi a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw hon yn is na'r ymgais blaenorol.

8.2 Ailsefyll ar ôl ardystio

Gall ymgeiswyr sy'n anhapus â'r radd a ddyfarnwyd ar gyfer y cymhwyster ddewis ailsefyll un neu fwy o unedau ar ôl ardystio.

Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol**, dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais blaenorol. Nid oes angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned a asesir yn **fewnol** gan y gellir trosglwyddo marciau'r uned a asesir yn fewnol am hyd oes y fanyleb.

Pan fydd yr ymgeisydd yn ailsefyll yr uned a asesir yn **fewnol**, defnyddir yr uchaf o'r sgôr marc unffurf o naill ai'r ymgais gychwynnol neu'r ymgais ailsefyll wrth gyfrifo'r radd gyffredinol. Bydd angen i'r ymgeisydd hefyd ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol** i fodloni'r gofyniad rheol terfynol ar gyfer y cymhwyster a dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir wrth gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw hyn yn is na'r ymgais flaenorol.

8.3 Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau

Ar ôl cyhoeddi canlyniadau pob cyfres arholiadau, mae CBAC yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar ôl y canlyniadau'n ymwneud ag adolygiadau o'r marcio a'r cymedroli a mynediad i sgriptiau arholiadau. Mae gwybodaeth am wasanaethau ar ôl y canlyniadau i'w gweld ar wefan Eduqas.

9. Camymddwyn

Mae gwybodaeth ynghylch Camymddwyn ar gael yn ein dogfen [Camymddwyn, Canllaw i Ganolfannau](#).

Rhaid rhoi gwybod i CBAC am bob achos o gamymddwyn honedig neu wirioneddol. Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y cânt eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cyngorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC [Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau](#).

9.1 Atal camymddwyn

Ni ddylai ymgeiswyr:

- gyflwyno gwaith heblaw eu gwaith hwy eu hunain
- darparu eu gwaith ar gyfer ymgeiswyr eraill drwy unrhyw fodd
- caniatáu i ymgeiswyr eraill ddefnyddio'r ffynonellau maent wedi dod o hyd iddynt yn annibynnol
- cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith
- defnyddio llyfrau, y rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabod neu briodoli'r ffynonellau
- cyflwyno gwaith y mae rhywun arall wedi prosesu'r geiriau, heb gydnabyddiaeth
- cynnwys deunydd amhriodol, anweddus neu sarhaus.

Nid yw ymgeiswyr wedi'u gwahardd rhag benthgyl llyfrau neu adnoddau eraill i'w gilydd ond ni ddylent lôn-ladrata gwaith ymchwil ymgeiswyr eraill.

Ni ddylai ymgeiswyr roi eu gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylent fod yn ymwybodol o ddogfen y CGC Gwybodaeth i ymgeiswyr – Canllawiau wrth roi cyfeiriadau at arholiadau/asesiadau ar y Rhyngrwyd – <http://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/information-for-malpractice>.

Rhaid i benaethiaid canolfannau ac uwch arweinwyr sicrhau bod yr aelodau o staff sy'n ymwneud â goruchwylio'r ymgeiswyr sy'n cynhyrchu asesiad dan reolaeth yn uniongyrchol yn ymwybodol o'r potensial am gamymddwyn.

Rhaid atgoffa staff addysgu bod methu â rhoi gwybod am gyhuddiadau o gamymddwyn neu amheuo'n o gamymddwyn ei hun yn gamymddwyn.

Rhaid i staff addysgu:

- fod yn wyliadwros o ran camymddwyn ymgeiswyr a bod yn hollol ymwybodol o'r rheoliadau swyddogol
- rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth, gyhuddiad neu ddigwyddiad o gamymddwyn wrth y tîm uwch arweinyddiaeth neu'n uniongyrchol i CBAC.